Dydd Sul, Gorffennaf 18fed, oedd y dyddiad y cawsom ddychwelyd i'r Capel i gynnal ein hoedfa gyntaf yno ers y Sul Mawrth 15fed 2020. 'Roedd llawenydd y dychwelyd i'w deimlo'n amlwg yno a'r adnodau o brofiad y Salmydd yn adlewyrchu ein profiad ninnau – Salm 84 – 'Mor Hawddgar yw dy bebyll Di, O Arglwydd y Lluoedd' a Salm 122 – 'Llawenychais pan ddywedant wrthyf, 'Awn i Dŷ yr Arglwydd'. Hon oedd yr Oedfa gyntaf i ni allu gwneud sylw arbennig o'r dyddiad Mehefin 1895–- 125 o flynyddoedd yn ôl i llynedd–- pan sefydlwyd yr Eglwys Annibynol yn y Cyffordd. Cawsom gyfle i gofio cyfraniad y 'Ffyddloniaid Dewrion Gynt' a'r her i ninnau heddiw – "Ffydd y rhai dilynwch" (Hebreaid 13).

Yn yr Oedfa hefyd fe gawsom gyfle i ddiolch i Sam am ei holl waith yn Capel Coffa ar hyd y blynyddoedd ac fel Diacon am hanner canrif, yn gyntaf yn y Tabernacl, Llanrwst, ac yna yn Capel Coffa. Cyflwynwyd llun iddo o'r Capeli a fu'n bwysig iddo yn ystod ei fywyd fel arwydd o'n gwerthfawrogiad.

Bu i ni gyfarfod i gynnal ein Hoedfa wedyn ymhen y mis yng nghanol mis Awst (Awst 15fed) ac wedi hynny o ddechrau Medi (Medi 5ed) bob Sul cyntaf a'r trydydd Sul o bob mis.

Yn ein Hoedfa Ddiolchgarwch ar Sul Hydref 17fed bu i ni roi sylw arbennig i weithgareddau yr Uwchgynhadledd a gynhaliwyd yn Glasgow tua'r un adeg.

Clywsom am ein cyfrifoldeb fel Stiwardiaid Cristnogol i ofalu am y byd drwy warchod y greadigaeth yn wyneb argyfwng Cynhesu Byd Eang.

Cynhaliwyd Oedfa bob bore Sul yng nghyfnod yr Adfent (Rhagfyr 5, 12 a 19) ac 'roedd y trefniadau eisioes mewn llaw i gynnal Gwasanaethau bob Sul yn ddi-fwlch o ddechrau Ionawr ymlaen.

## Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

## Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021

Wrth i'r Nadolig agosau fe ddaeth yn amlwg fod yr amrywiolyn Omicron, a ganfuwyd gyntaf yn Ne'r Affrig, yn lledaenu yn eithriadol o gyflym ym Mhrydain ac fe benderfynwyd mai doeth fyddai gohirio yr agor am fis arall tan ddechrau Chwefror (Chweforr 6ed). Edrychwn ymlaen at y cysondeb hwn yn ein Haddoliad gydag Oedfa yn Capel Coffa bob Bore Sul. Gallwn, bryd hynny, gobeithio, groesawu pregethwr gwadd i bulpud Capel Coffa unwaith eto. Bydd yn hyfryd gallu gweld a chlywed ein cyfeillion wedi cyfnod maith o bron i ddwy flynedd. Diau y bydd ambell wyneb newydd yn ein plith hefyd.

Bu rhai o'n haelodau mewn gwaeledd a rhai o'n plith wedi symyd i Gartrefi Preswyl. Anfonwn ein cofion atoch oll gan eich sicrhau fod aelodau Capel Coffa yn cofio atoch ac yn parhau i feddwl amdanoch.

Fe gawsom achlysuron hapus hefyd yn ystod 2021. Cawsom gyfle i ddiolch i Nelian am ei gwasanaeth fel organyddes am 33 mlynedd. Hyfryd oedd cael cyflwyno rhôdd fechan iddi, ar ran yr Eglwys, fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i Gwasanaeth mawr yng Nghapel Coffa.

Cawsom, hefyd, y llawenydd o fedyddio Dylan Geddes, sef gor-ŵyr Meirwen. 'Roedd hwn yn achlysur hapus iawn ar brynhawn Sul Rhagfyr 5ed yng nghyfnod yr Adfent. Hyfryd oedd gweld Meirwen oedd wedi gwneud ymdrech arbennig i fod yn y Gwasanaeth.

Mae cyflwyno'r Adroddiad yn flynyddol yn gyfle i ddiolch. Diolchwn am bob cyfraniad ariannol yn ystod 2021 sy'n diogelu dyfodol Capel Coffa. Diolch, hefyd am bob gwasanaeth a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

Bu i mi gychwyn fy ngweinidogaeth yng Nghwm Tawe. Yn Siloh, Gwauncaegurwen, 'roedd pob un o'r Diaconiaid yn gweithio dan ddaear yng nglofa Abernant. Clywais hwy yn sôn yn aml am bwysigrwydd y 'Safety Men' oedd yn parhau i ofalu am y peiriannau a'r olwynion pan fyddai'r Pwll ar gau fel y byddai'r Pwll Glo yn barod i weithio ynddo pan ddelai'r holl weithwyr yn ôl.

Bu'r Diaconiaid, yn Capel Coffa, fel 'Safety Persons' yn ystod ein cyfnod clo ninnau. Bu iddynt gyfarfod droeon, yn yr awyr agored weithiau pan fyddai angen gwneud penderfyniadau pwysig. Bu llawer o'r gwaith o'r golwg. Sicrhau iechyd diogel ein haelodau, yn wyneb bygythiad y Feirws, oedd yn cael y flaenoriaeth bob tro. 'Roeddent hefyd yn gofalu am holl fuddiannau yr Eglwys erbyn y cyfnod y caem ddychwelyd. Mae ein diolch yn fawr iddynt am eu gofal ac am eu doethineb.

Wynebwn yn awr yn hyderus ar Flwyddyn Newydd gan ddymuno y bydd 2022 yn well blwyddyn ar lawer cyfri ac yn flwyddyn fydd yn llawn bendithion i ni yn Capel Coffa.

Cofion cywir iawn atoch

Gareth

## Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

## Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021

| **CYFRIF AELODAETH CAPEL COFFA AM 2021** | |
|---|---|
| Rhif yr aelodau ar ddiwedd 2020 | 71 |
| Derbyniwyd Aelodau Newydd | 0 |
| | **71** |
| Bu farw | 5 |
| Collwyd o'n plith | 3 |
| **RHIF YR AELODAETH AR DDIWEDD 2021** | **63** |

J. E. Bowen.

Arwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar

## Adroddiad Archwiliad Annibynnol

## I ymddiriedolwyr Capel Coffa ar y cyfrifon sydd heb eu harchwilio

Rydym yn adrodd ar gyfrifon yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31 Rhagfyr 2021.

### Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar archwilwyr

Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad llawn y flwyddyn hon o dan adran 144(2) o'r Ddeddf Elusennau a bod archwiliad annibynnol ei angen.

Ein cyfrifoldeb ni yw;

- Archwilio'r cyfrifon o dan adran 145 o'r Ddeddf 2011
- Dilyn y canllawiau a osodwyd yn y cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf 2011; ac
- Datgan os oes unrhyw beth wedi dod i'n sylw

### Sail yr adroddiad archwiliad annibynnol

Mae ein harchwiliad wedi ei wneud yn unol ar gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion a gedwir gan yr elusen a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynwyd i'r cofnodion. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o eitemau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio am esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ar fath eitem. Nid yw'r gwaith a ymgymerir yn darparu tystiolaeth a fuasai ei hangen mewn archwiliad llawn ac o ganlyniad nid ydym yn datgan barn ynghylch a sail "cywir a theg" y cyfrifon, mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodir yn y datganiad isod;

### Datganiad yr archwilydd annibynnol;

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad, does unrhyw fater wedi dod i'n sylw;

1. sydd yn rhoi achos rhesymol i ni gredu bod, mewn unrhyw agwedd berthnasol, bod y gofynion i;

- Gadw cofnodion y cyfrifon yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf 2011; ac
- I baratoi cyfrifon sydd yn gyfatebol i'r cofnodion ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfrifyddu'r Ddeddf 2011

Heb gael eu bodloni; neu

2. sydd, yn ein barn, dylid tynnu sylw at, er mwyn galluogi i ni ddeall y cyfrifon.

**Adroddiad Archwiliad Annibynnol**

**I ymddiriedolwyr Capel Coffa ar y cyfrifon sydd heb eu harchwilio**

Pritchett + Co

Pritchett & Co
Cyfrifwyr Siartredig
Cynghorwyr Treth Siartredig
16 Wynnstay Road
Bae Colwyn
LL29 8NB

..........................

Dyddiad: 06/09/2022

## Cymeradwyo'r cyfrifon gan yr aelodau

Yn unol â thelerau ein hymgysylltiad, rydym yn cymeradwyo'r wybodaeth ariannol, sy'n cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros yr wybodaeth ariannol, gan gynnwys priodoldeb y sail cyfrifyddu a darparu'r holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol i Pritchett & Co ar gyfer llunio'r wybodaeth ariannol.

………………

Mrs Jean Barlow
Ar ran Capel Coffa, Cyffordd Llandudno

## CAPEL COFFA

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2021

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm Cronfeydd 2021 | Cyfanswm Cronfeydd 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau a dderbyniwyd** | | | | | |
| Cyfanswm adnoddau a dderbyniwyd | | 27,746 | 7,804 | 35,550 | 39,922 |
| **Adnoddau a ddefnyddir** | | | | | |
| Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd | | 27,258 | 8,158 | 35,416 | 32,544 |
| Adnoddau net cyn trosglwyddiadau | | 488 | (354) | 134 | 7,378 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnoddau net am y flwyddyn | | 488 | (354) | 134 | 7,378 |
| Cronfeydd cronedig a ddygwyd ymlaen | | 39,854 | 55,161 | 95,015 | 87,637 |
| Cronfeydd cronedig a gariwyd ymlaen | 2 | 40,342 | 54,807 | 95,149 | 95,015 |

**CAPEL COFFA**
**CYFRIF ELW A CHOLLEDD**
**Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2021**

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Incwm | | | | |
| Casgliadau Cyhoeddus | | 480.60 | | 201.62 |
| Casgliad y Weinidogaeth | | 10,930.00 | | 12,369.00 |
| Tanysgrifiadau Diolchgarwch | | 738.00 | | 800.00 |
| Cyfundebol | | 159.00 | | 207.00 |
| Er Cof | | 985.00 | | 638.00 |
| Coleg Yr Annibynwyr | | 120.00 | | 175.00 |
| Rhoddion Arbennig | | 510.00 | | 1,263.00 |
| Taliad yswiriant Covid | | 2,033.36 | | 0.00 |
| Incwm | | 0.00 | | 4.80 |
| Grant Y Cyfundeb | | 5,000.00 | | 5,600.00 |
| Apel Wythnos Cymorth Cristnogol | | 115.00 | | 65.00 |
| Y Tyst | | 180.50 | | 179.00 |
| Ôl-daliad y Dreth Incwm | | 2,498.51 | | 2,900.42 |
| Rhent Ac Yswiriant yr Iard | | 3,403.75 | | 2,723.00 |
| Trydan P Mason | | 0.00 | | 4.70 |
| Llog Clwb Cynilo | | 0.42 | | 12.65 |
| Llog Arian Ymddiriedolaeth | | 3.97 | | 309.39 |
| Llog y Banc | | 53.89 | | 302.79 |
| Y Gynhadaeth i'w drosglwyddo i'r Undeb | | 339.65 | | 298.60 |
| Arian trosglwyddedig | | 0.00 | | 240.00 |
| Cronfa Elusen iw ddosbarthu | | 195.00 | | 350.00 |
| | | 27,746.65 | | 28,643.97 |
| Gwariant | | | | |
| Y Weinidogaeth Sefydlog | 17,138.97 | | 12,211.92 | |
| Y Weinidogaeth Gynorthwyol | 0.00 | | 224.75 | |
| Cynnal a Chadw | 620.79 | | 823.16 | |
| Rhoddion | 246.35 | | 342.50 | |
| Rhoddion i Gymorth Cristnogol | 95.00 | | 100.00 | |
| Cymdeithas Dydd yr Arglwydd | 25.00 | | 25.00 | |
| Trysorfa'r Gweddwon | 100.00 | | 100.00 | |
| Cyngor Ysgolion Sul | 0.00 | | 75.00 | |
| Cyfraniadau i'r Undeb | 368.00 | | 362.00 | |
| Coleg | 120.00 | | 175.00 | |
| Cronfa Deuluol | 0.00 | | 50.00 | |
| Yswiriant y Capel a'r Iard | 1,888.55 | | 1,338.14 | |
| Treth Dŵr | 62.05 | | 175.49 | |
| Treuliau/Costau | 3,374.03 | | 771.86 | |
| Trydan | 2,102.58 | | 1,776.62 | |
| BT | 539.28 | | 635.63 | |
| Y Genhadaeth | 339.65 | | 348.60 | |
| Y Tyst | 168.00 | | 185.50 | |
| Cronfa Elusen | 70.00 | | 55.00 | |
| Trosglwyddwyd i Clwb Cynilo | 0.00 | | 200.00 | |
| | | 27,258.25 | | 19,976.17 |
| Incwm sy'n weddill ar ol gwariant | | 488.40 | | 8,667.80 |

**CAPEL COFFA**
**MANTOLEN O GYFRIF ARIANNOL**
**Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2021**

| | | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| Asedau Sefydlog | | | | | |
| Asedau Diriaethol | Nodyn 1 | | 0.00 | | 0.00 |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| HSBC Prif Gyfrif | | 8,880.53 | | 13,500.12 | |
| HSBC Cyfrif y Gymuned | | 1,461.41 | | 1,353.84 | |
| HSBC Farchnad Ariannol | | 30,000.00 | | 25,000.00 | |
| HSBC Drws Agored/Cronfa Organ | | 0.00 | | 0.00 | |
| HSBC Cyfrif Eiddo Yr Ymddiriedolaeth - Dan gyfyngiadau | | 53,138.84 | | 53,137.50 | |
| HSBC Gronfa Genhadol | | 0.00 | | 0.00 | |
| HSBC Ysgol Sul | | 228.52 | | 250.97 | |
| HSBC Clwb Cynilo | | 1,340.42 | | 1,655.00 | |
| HSBC Cronfa Elusennau | | 99.41 | | 117.33 | |
| | | 95,149.13 | | 95,014.76 | |
| Dyledion Cyfredol | | | | | |
| Arian y Clwb Cynilo | | 0.00 | | 0.00 | |
| Y Genhadaeth i'w drosglwyddo i'r Undeb | | 0.00 | | 0.00 | |
| | | 0.00 | | 0.00 | |
| Asedau Cyfredol | | | 95,149.13 | | 95,014.76 |
| Asedau Net | | | 95,149.13 | | 95,014.76 |
| Cronfeydd | | | | | |
| Cronfeydd Cyfyngedig | Nodyn 2 | | 54,807.19 | | 55,160.80 |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | | 40,341.94 | | 39,853.96 |
| | | | 95,149.13 | | 95,014.76 |

Cymeradwyir y cyfrifon gan yr ymddiriedolwyr ar ag arwyddwyd ar eu rhan gan;

________________________________________

**CAPEL COFFA**
**NODIADAU IR CYFRIFON**
**FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2021**

1. **Asedau Sefydlog - Adeilad y Capel**

| | £ |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 0 |
| Ar 31 Rhagfyr 2021 | 0 |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 0 |
| Dibrisiant am y flwyddyn | 0 |
| Ar 31 Rhagfyr 2021 | 0 |
| **Gwerth Llyfr Net** | |
| Ar 31 Rhagfyr 2021 | £0 |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | £0 |

Cafwyd adeilad y capel ei brisio yn broffesiynol gan Mr G C Butterworth, M.R.I.C.S am £75,000 ar 31ain Awst 2012

2. Cronfeydd Cyfyngedig

| | Ar 01.01.21 £ | Adnoddau a dderbyniwyd £ | Adnoddau a ddefnyddir £ | Trosglwyddiadau £ | Ar 31.12.21 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Drws Agored | 0 | | | | 0 |
| Cronfa'r Organ | 0 | | | | 0 |
| Rhoddion at y genhadaeth ar ran yr Eglwys | 0 | | | | 0 |
| Mantolen yr Ysgol Sul | 250 | | (21) | | 229 |
| Mantolen y Clwb Cynilo | 1,655 | 7,520 | (7,835) | | 1,340 |
| Tŷ'r Capel | 53,138 | | | | 53,138 |
| Cronfa Elusenol | 118 | 282 | (300) | | 100 |
| | 55,161 | 7,804 | (8,157) | 0 | 54,807 |

Tŷ'r Capel- Crëwyd y gronfa hon yn dilyn gwerthiant y Tŷ Capel . Mae'r arian wedi ei gynnal mewn cyfrif unigol ag ar gael i'w ddefnyddio pan fydd yr holl ffynonellau ariannol eraill wedi cael eu defnyddio.

# Accounts

# CAPEL COFFA

## CYFRIFON ANARCHWILIEDIG

## FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2020

Rhif elusen cofrestredig: 239014

## Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

## Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020

Annwyl Gyfeillion,

Bu 2020 yn flwyddyn eithriadol o anodd i bawb ohonom oherwydd lledaeniad y feirws Covid–19 ym Mhrydain. Bu raid i nifer o'n haelodau 'hunan ynysu' a buom oll, fel pawb arall, drwy gyfnodau clo digon anodd. Bu'n amser hir o bryder ac o unigrwydd i lawer. Collodd rhai ohonom anwyliaid a bu cyfnod y galaru yn anodd iawn oherwydd y cyfyngiadau. Ychydig a feddyliom yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror y byddai blwyddyn mor heriol o'n blaenau. Ni fu'n bosib i ni gyd-gyfarfod yn y Capel i addoli ers ein Gwasanaeth Gŵyl Ddewi ar Sul, Mawrth 15fed. Yr ydym oll yn colli cymdeithas ein gilydd yn fawr iawn ac yn dyheu am gael dychwelyd i'r Capel pan fo'r bygythiadau o du'r pandemig wedi lleihau'n ddigonol.

Oherwydd yr amgylchiadau dyrys ni chawsom ddathlu 125 mlynedd ers sefydlu Eglwys Annibynnnol yn Y Cyffordd ym Mis Mehefin fel ag y bwriadwyd. Fe gawn gyfle i nodi'r achlysur pan ddychwelwn. Efallai y bydd yn bosib, bryd hynny, i ni gael canu ar y dôn Blaenwern y geiriau a gyfansoddais ar gyfer yr Achlysur sy'n ceisio mynegi ein teimladau a'n gobeithion.

Ni chawsom gyfle ychwaith i ddiolch i Sam am ei holl wasanaeth fel Diacon am hanner can mlynedd. Bu'n Ddiacon yn y Tabernacl, Llanrwst, cyn dod yn Ddiacon yn Capel Coffa. Mae gwasanaeth Sam i'n Heglwys dros yr holl flynyddoedd yn anhygoel! Mawr iawn yw ein dyled iddo. Bu i amryw sylwi, yn ystod y cyfnod clo, ar brydferthwch y blodau o amgylch y Capel. Deuent a lliw a gobaith ynghanol cyfnod digon tywyll a digalon. Diolch Sam!

Ni fu cyfle ychwaith i longyfarch pedwar o'n haelodau ar achlysur dathlu ohonynt eu penblwydd yn nawdeg oed. Estynnwn ein llongyfarchiadau cynhesaf i Mr. Eric Roberts, Mrs. Mai Jones, Mrs Catherine Watkin a'r Parchedig Blodwen Jones.

Bydd cyfle i longyfarch y pedwar ac i ddweud gair o werthfawrogiad am wasanaeth arbennig Sam pan awn yn ôl i'r Capel.

Ynghanol Mis Ionawr, cyn y cyfnod clo, bu farw Mr. Gwilym Parry. Yn ei farwolaeth fe gollodd Capel Coffa un a roddodd oes o wasanaeth i'n Heglwys. Bu'n arweinydd diogel ar hyd y blynyddoedd ac fe erys ei ddylanwad yn drwm arnom. Ceir Coffad iddo yn yr Adroddiad hwn.

Ar nodyn calonogol, pleser yw cofnodi y bu i ni groesawu dwy chwaer i fod yn Ddiaconiaid yn ein plith sef Mrs. Heledd Cressey a Mrs. Eirwen Edwards. Diolchwn i Heledd, yn cael ei chynorthwyo gan Eirwen a Mary, am drefnu y Gwasanaeth Nadolig ar Zoom. Bu'r fenter yn llwyddiant ac fe obeithiwn y bydd yn bosib gwneud rhywbeth tebyg eto.

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn, drwy'r Adroddiad, i ddiolch i'r Eglwys am ei rhodd haelionus iawn i mi ar achlysur dathlu hanner canrif yn y Weinidogaeth a deng mlynedd ohonynt fel eich Gweinidog yn Capel Coffa. Bu imi werthfawrogi eich caredigrwydd a'ch dymuniadau da yn fawr iawn.

## Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

## Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020

Bellach, fe wawriodd Blwyddyn Newydd ac yn ei sgil fe ddaw gobaith am ddyfodol gwell! Bu 2020 yn flwyddyn heriol iawn mewn sawl cyfeiriad. Ac er fod y feirws yn parhau i ledaenu'n gyflym ar droad y flwyddyn mawr yw ein gobaith y bydd i'r brechlyn ein harwain allan o'r argyfwng maes o law ac y gwelwn fath o 'normalrwydd newydd' fel y bo i ninnau gael dychwelyd i'r Capel i addoli eto.

Yn y cyfamser parhawn i gynnal y fflam – fflam y ffydd, fflam gobaith a fflam cariad – gan wybod fod yr Un gynheuodd y fflam yn parhau mor gadarn ag erioed .....
"Iesu Grist, ddoe a heddiw yr un, ac yn dragywydd".

Cofion cywir iawn atoch

Gareth

| CYFRIF AELODAETH CAPEL COFFA AM 2020 | |
|---|---|
| Rhif yr aelodau ar ddiwedd 2019 | 76 |
| Derbyniwyd Aelodau Newydd | 0 |
| | **76** |
| Bu farw | 1 |
| Collwyd o'n plith | 4 |
| **RHIF YR AELODAETH AR DDIWEDD 2020** | **71** |

Arwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar

27/07/2021

## Adroddiad Archwiliad Annibynnol

## I ymddiriedolwyr Capel Coffa ar y cyfrifon sydd heb eu harchwilio

Rydym yn adrodd ar gyfrifon yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31 Rhagfyr 2020.

### Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar archwilwyr

Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad llawn y flwyddyn hon o dan adran 144(2) o'r Ddeddf Elusennau a bod archwiliad annibynnol ei angen.

Ein cyfrifoldeb ni yw;

- Archwilio'r cyfrifon o dan adran 145 o'r Ddeddf 2011
- Dilyn y canllawiau a osodwyd yn y cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf 2011; ac
- Datgan os oes unrhyw beth wedi dod i'n sylw

### Sail yr adroddiad archwiliad annibynnol

Mae ein harchwiliad wedi ei wneud yn unol ar gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion a gedwir gan yr elusen a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynwyd i'r cofnodion. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o eitemau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio am esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ar fath eitem. Nid yw'r gwaith a ymgymerir yn darparu tystiolaeth a fuasai ei hangen mewn archwiliad llawn ac o ganlyniad nid ydym yn datgan barn ynghylch a sail "cywir a theg" y cyfrifon, mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodir yn y datganiad isod;

### Datganiad yr archwilydd annibynnol;

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad, does unrhyw fater wedi dod i'n sylw;

1. sydd yn rhoi achos rhesymol i ni gredu bod, mewn unrhyw agwedd berthnasol, bod y gofynion i;

- Gadw cofnodion y cyfrifon yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf 2011; ac
- I baratoi cyfrifon sydd yn gyfatebol i'r cofnodion ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfrifyddu'r Ddeddf 2011

Heb gael eu bodloni; neu

2. sydd, yn ein barn, dylid tynnu sylw at, er mwyn galluogi i ni ddeall y cyfrifon.

## Adroddiad Archwiliad Annibynnol

## I ymddiriedolwyr Capel Coffa ar y cyfrifon sydd heb eu harchwilio

Pritchett & Co
Cyfrifwyr Siartredig
Cynghorwyr Treth Siartredig
16 Wynnstay Road
Bae Colwyn
LL29 8NB

..........................

Dyddiad: 27/07/2021

## Cymeradwyo'r cyfrifon gan yr aelodau

Yn unol â thelerau ein hymgysylltiad, rydym yn cymeradwyo'r wybodaeth ariannol, sy'n cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros yr wybodaeth ariannol, gan gynnwys priodoldeb y sail cyfrifyddu a darparu'r holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol i Pritchett & Co ar gyfer llunio'r wybodaeth ariannol.

J. E. Barlow.
..................

Mrs Jean Barlow
Ar ran Capel Coffa, Cyffordd Llandudno

27/07/2021

## CAPEL COFFA

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2020

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm Cronfeydd 2020 | Cyfanswm Cronfeydd 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau a dderbyniwyd** | | | | | |
| Cyfanswm adnoddau a dderbyniwyd | | 28,644 | 11,278 | 39,922 | 51,902 |
| **Adnoddau a ddefnyddir** | | | | | |
| Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd | | 19,976 | 12,568 | 32,544 | 53,656 |
| Adnoddau net cyn trosglwyddiadau | | 8,668 | (1,290) | 7,378 | (1,754) |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnoddau net am y flwyddyn | | 8,668 | (1,290) | 7,378 | (1,754) |
| Cronfeydd cronedig a ddygwyd ymlaen | | 31,186 | 56,451 | 87,637 | 83,391 |
| Cronfeydd cronedig a gariwyd ymlaen | 2 | 39,854 | 55,161 | 95,015 | 81,637 |

**CAPEL COFFA**
**CYFRIF ELW A CHOLLEDD**
**Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2020**

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Incwm** | | | | |
| Casgliadau Cyhoeddus | | 201.62 | | 1,333.52 |
| Casgliad y Weinidogaeth | | 12,369.00 | | 13,429.00 |
| Tanysgrifiadau Diolchgarwch | | 800.00 | | 990.00 |
| Cyfundebol | | 207.00 | | 187.00 |
| Er Cof | | 638.00 | | 430.00 |
| Coleg Yr Annibynwyr | | 175.00 | | 165.00 |
| Rhoddion Arbennig | | 1,263.00 | | 930.00 |
| Grant Ymddiriedolaeth Cemlyn Jones | | 0.00 | | 3,000.00 |
| Incwm | | 4.80 | | 126.00 |
| Grant Y Cyfundeb | | 5,600.00 | | 5,000.00 |
| Casgliad Madagascar | | 0.00 | | 628.00 |
| Apel Wythnos Cymorth Cristnogol | | 65.00 | | 260.00 |
| Y Tyst | | 179.00 | | 231.00 |
| Ôl-daliad y Dreth Incwm | | 2,900.42 | | 2,906.41 |
| Rhent Ac Yswiriant yr Iard | | 2,723.00 | | 2,723.00 |
| Trydan P Mason | | 4.70 | | 50.11 |
| Llog Clwb Cynilo | | 12.65 | | 50.95 |
| Llog Arian Ymddiriedolaeth | | 309.39 | | 292.26 |
| Llog y Banc | | 302.79 | | 248.18 |
| Y Gynhadaeth i'w drosglwyddo i'r Undeb | | 298.60 | | 520.14 |
| Arian trosglwyddedig | | 240.00 | | 0.00 |
| Cronfa Elusen iw ddosbarthu | | 350.00 | | 425.00 |
| | | 28,643.97 | | 33,925.57 |
| **Gwariant** | | | | |
| Y Weinidogaeth Sefydlog | 12,211.92 | | 17,744.75 | |
| Y Weinidogaeth Gynorthwyol | 224.75 | | 1,511.75 | |
| Cynnal a Chadw | 823.16 | | 3,815.80 | |
| Rhoddion | 342.50 | | 100.00 | |
| Rhoddion i Gymorth Cristnogol | 100.00 | | 260.00 | |
| Cymdeithas Dydd yr Arglwydd | 25.00 | | 25.00 | |
| Trysorfa'r Gweddwon | 100.00 | | 100.00 | |
| Cyngor Ysgolion Sul | 75.00 | | 75.00 | |
| Cyfraniadau i'r Undeb | 362.00 | | 398.00 | |
| Coleg | 175.00 | | 165.00 | |
| Hosbis Dewi Sant | 0.00 | | 125.00 | |
| Apel Madagascar | 0.00 | | 802.00 | |
| Cronfa Deuluol | 50.00 | | 50.00 | |
| Yswiriant y Capel a'r Iard | 1,338.14 | | 1,454.15 | |
| Treth Dŵr | 175.49 | | 225.81 | |
| Treuliau/Costau | 771.86 | | 3,777.68 | |
| Trydan | 1,776.62 | | 2,840.89 | |
| BT | 635.63 | | 1,092.04 | |
| Y Genhadaeth | 348.60 | | 570.14 | |
| Y Tyst | 185.50 | | 225.00 | |
| Cronfa Elusen | 55.00 | | 0.00 | |
| Trosglwyddwyd i Clwb Cynilo | 200.00 | | 0.00 | |
| | | 19,976.17 | | 35,358.01 |
| Incwm sy'n weddill ar ol gwariant | | 8,667.80 | | (1,432.44) |

**CAPEL COFFA**
**MANTOLEN O GYFRIF ARIANNOL**
**Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2020**

| | | 2020 £ | 2020 £ | 2019 £ | 2019 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | | | | | |
| Asedau Diriaethol | Nodyn 1 | | 0.00 | | 0.00 |
| | | | | | |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| HSBC Prif Gyfrif | | 13,500.12 | | 1,100.00 | |
| HSBC Cyfrif y Gymuned | | 1,353.84 | | 86.16 | |
| HSBC Farchnad Ariannol | | 25,000.00 | | 30,000.00 | |
| HSBC Drws Agored/Cronfa Organ | | 0.00 | | 0.00 | |
| HSBC Cyfrif Eiddo Yr Ymddiriedolaeth - Dan gyfyngiadau | | 53,137.50 | | 53,137.50 | |
| HSBC Gronfa Genhadol | | 0.00 | | 0.00 | |
| HSBC Ysgol Sul | | 250.97 | | 285.95 | |
| HSBC Clwb Cynilo | | 1,655.00 | | 2,790.00 | |
| HSBC Cronfa Elusennau | | 117.33 | | 237.55 | |
| | | 95,014.76 | | 87,637.16 | |
| | | | | | |
| Dyledion Cyfredol | | | | | |
| Arian y Clwb Cynilo | | 0.00 | | 0.00 | |
| Y Genhadaeth i'w drosglwyddo i'r Undeb | | 0.00 | | 0.00 | |
| | | 0.00 | | 0.00 | |
| | | | | | |
| Asedau Cyfredol | | | 95,014.76 | | 87,637.16 |
| Asedau Net | | | 95,014.76 | | 87,637.16 |
| | | | | | |
| Cronfeydd | | | | | |
| Cronfeydd Cyfyngedig | Nodyn 2 | | 55,160.80 | | 56,451.00 |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | | 39,853.96 | | 31,186.16 |
| | | | 95,014.76 | | 87,637.16 |

Cymeradwyir y cyfrifon gan yr ymddiriedolwyr ar

ag arwyddwyd ar eu rhan gan; G. E BARLOW.

J. E. Barlow

**CAPEL COFFA**
**NODIADAU IR CYFRIFON**
**FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2020**

1. **Asedau Sefydlog - Adeilad y Capel**

| | £ |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 0 |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | 0 |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 0 |
| Dibrisiant am y flwyddyn | 0 |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | 0 |
| **Gwerth Llyfr Net** | |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | £0 |
| Ar 31 Rhagfyr 2019 | £0 |

Cafwyd adeilad y capel ei brisio yn broffesiynol gan Mr G C Butterworth, M.R.I.C.S am £75,000 ar 31ain Awst 2012

2. Cronfeydd Cyfyngedig

| | Ar 01.01.20 £ | Adnoddau a dderbyniwyd £ | Adnoddau a ddefnyddir £ | Trosglwyddiadau £ | Ar 31.12.20 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Drws Agored | 0 | | | | 0 |
| Cronfa'r Organ | 0 | | | | 0 |
| Rhoddion at y genhadaeth ar ran yr Eglwys | 0 | | | | 0 |
| Mantolen yr Ysgol Sul | 285 | 0 | (35) | | 250 |
| Mantolen y Clwb Cynilo | 2,790 | 11,048 | (12,183) | | 1,655 |
| Tŷ'r Capel | 53,138 | | | | 53,138 |
| Cronfa Elusenol | 238 | 230 | (350) | | 118 |
| | 56,451 | 11,278 | (12,568) | 0 | 55,161 |

Tŷ'r Capel- Crëwyd y gronfa hon yn dilyn gwerthiant y Tŷ Capel . Mae'r arian wedi ei gynnal mewn cyfrif unigol ag ar gael i'w ddefnyddio pan fydd yr holl ffynonellau ariannol eraill wedi cael eu defnyddio.